Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

# UKSPF- GC: CWESTIYNAU A OFYNIR YN AML

## Hawliad

| | |
|---|---|
| A oes angen i fi gyflwyno hawliad os nad oes gennych unrhyw wariant i adrodd arno? | Oes, mae'n dal yn ofynnol i chi gyflwyno adroddiad cynnydd ermwyn roi diweddariad i ni am y gweithgaredd a chwblhau hawliad gan nodi £0 er mwyn diweddaru cerrig milltir a risgiau. |
| A oes angen i fi gyflwyno tystiolaeth ategol gyda'r hawliad? | Na, byddwn yn gofyn am tystiolaeth pan yn anfon sampl dilysu atoch |
| Oes angen i chi gadw cofrestr asedau ar gyfer y grantiau a roddir i 3ydd partïon? | Na, nid oes angen ei gynnwys ar y ffurflen hawlio ond mae ddisgwyl i chi gadw cofnod ar eich ffeil prosiect. |
| A oes modd defnyddio Egress ar gyfer anfon gwybodaeth sensitif? | Oes, rhowch wybod i ni beth sy'n gweithio orau i chi. |
| A oes hyblygrwydd gyda'r dyddiad cyflwyno hawliad ar gyfer yr hawliad 1af? | Oes, ond bydd angen anfon hawliadau yn y dyfodol erbyn y dyddiad a nodir ar CAG (Cytundeb ariannu grant) |
| A fydd angen hawliadau partner prosiect? | Byddwn yn disgwyl i chi hawlio costau partner y prosiect ar eich ffurflen hawlio. Mae ddisgwyl i chi fod gyda'r dystiolaeth ar gyfer unrhyw wariant a nodir ar y ffurflen os caiff ei ddewis i'w hadolygu |
| Ai dim ond ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau y byddwn yn cyflwyno hawliad? | Na, ellwch hawlio unrhyw wariant sydd wedi ei gymeradwyo, yn ystod y chwarter p'un a yw'r gwaith wedi'i gwblhau'n llawn neu beidio. |
| A oes angen diweddariad arnoch ar y gwerthusiad os nad oes unrhyw weithgaredd wedi digwydd yn y chwarter | Oes, rydym angen gwybodaeth ddiweddaraf o lle mae'r gwaith gwerthuso arnni |
| Oes modd dyrannu gwariant i wahanol benawdau gwariant na hyn sydd wedi ei gymeradwyo o fewn Atodiad B? | Na, dim ond penawdau gwariant a chostau a nodir yn Atodiad B y cais a gymeradwywyd y gallwch eu cynnwys. |
| A yw gwariant ôl-weithredol yn gymwys? | Ydi, gallwch hawlio gwariant ôl-weithredol o'r dyddiad cychwyn y prosiect sydd wedi ei cymeradwyo, nid yw costau a gafwyd cyn y dyddiad dechrau dechrau y prosiect yn gymwys |
| A gallwn i nodi unrhyw arian cyfatebol ychwanegol a gawsom? | Dim ond arian cyfatebol cymeradwy y dylid ei nodi ar eich hawliad gwariant. Os ydych wedi derbyn arian cyfatebol ychwanegol ac angen lleihau eich grant SPF, bydd angen trafod hyn gyda'ch Tîm SPF Lleol, |
| Pa mor hir ar ôl cyflwyno hawliad y byddaf yn derbyn taliad? | Ein nod yw prosesu ceisiadau cyflawn a chywir o fewn 10-15 diwrnod. Bydd y broses hawlio yn cymryd mwy o amser os bydd gwallau neu wybodaeth ar goll. |
| Sut mae taliad o flaen llaw y gweithio? | Os yw llif arian yn rhwystr i'ch prosiect, rhowch wybod i ni a gallwn anfon y polisi talu ymlaen llaw atoch a fydd yn esbonio'r broses. Byddai angen i chi ddarparu sail resymegol gadarn i gefnogi eich cais am flaenswm a fydd, os caiff ei gymeradwyo, yn cael ei dalu bob chwarter yn seiliedig ar eich proffil chwarterol cymeradwy. Bydd unrhyw or-hawliad/tan-hawliad a gariwyd ymlaen yn cael ei addasu o daliadau yn y dyfodol. |
| A allai ddefnyddio llofnodion electronig ar bob dogfen hawlio? | Rydym yn derbyn llofnodion printiedig neu electronig ar ddogfennau hawlio, sicrhewch bo y lofnodwr wedi ei gynnwys yn yr ebost sydd yn gyflwyo'r hawliad. |
| Pwy yw'n pwynt cysyllt ar gyfer ymholiadau? | Ar gyfer ymholiadau sy'n ymwneud â hawlio, anfonwch neges i blwch post: FfynnonGyffredinGogleddCymru@gwynedd.llyw.cymru a bydd aelod o'r tîm mewn cysylltiad. |

## CAFFAEL

| | |
|---|---|
| Oes eithriadau i'r broses caffael i Brosiectau SPF? Oes modd defnyddio rheolau/fframwaith ein Awdurdod Lleol? | Lle mae cyllid allweddol yn cael ei ddarparu gan Awdurdodau Lleol, mae'r derbynwyr grant yn dilyn eu rheolau caffael ALl eu hunain. Os yw'n dderbynnydd grant allanol sy'n dymuno dilyn rheolau caffael/fframwaith eu ALl eu hunain, mae angen cyflwyno gwybodaeth mlaen ato ni. |

CONWY Cyngor Bwrdeistref Sirol County Borough Council · Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council · Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council · Cyngor Gwynedd · Cyngor Sir Ynys Môn Isle of Anglesey County Council · Wrexham County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam · Wedi'i yrru gan Ffyniant Bro

| CAIS I NEWID | |
|---|---|
| Sut dwi'n gwneud cais am newid? | Bydd ceisiadau am newid yn y lle 1af yn cael eu gwneud drwy'r broses hawlio. Trafodwch newidiadau posibl gyda'ch cyswllt ALl yn y lle cyntaf a chynnwys diweddariad naratif o unrhyw drafodaethau ar gyflwyniad eich adroddiad cynnydd. Bydd angen i'ch cyswllt ALl gyflwyno cais am newid ar eich rhan. |
| A yw'r trosglwyddiad o 20% yn seiliedig ar gyfanswm costau'r prosiect neu linell gyllideb unigol? | Trosglwyddiad o 20% o linell cyllideb unigol |
| Oes modd symud gwariant o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 3? | Rydym methu cadarnhau llithriadau ar hyn o bryd nes ein bod yn gwybod beth yw cyfanswm ein dyraniad ar gyfer 2024/25. Dylech ddatgan eich cais ar yr adroddiad cynnydd |
| Oes modd ailddyrannu gwariant cyfalaf i wariant refeniw neu cyfalaf i refeniw? | Na, bydd unrhyw symudiad costau rhwng Cyfalaf a Refeniw angen cais am newid. |
| A allai wneud newidiadau o dan y trothwy 20% heb drafodaeth a cymeradwyo? | Oes, nid oes angen cymeradwyaeth ffurfiol ond dylech nodi pob newid ar yr adroddiad cynnydd. |
| A fydd y trosglwyddiad 20% a ganiateir ar bob hawliad neu ar y rhaglen gyfan? | Bydd y trothwy trosglwyddo o 20% yn seiliedig ar eich ffigurau cymeradwy ac nid ar bob hawliad. |
| A yw'n debygol y bydd estyniad i Rhaglen SPF? Gan dwi'n rhagweld tanwariant ond ddim eisiau ildio'r arian os fydd estyniad ar gael. | Y sefyllfa bresennol yw nad oes cyfle i ymestyn y prosiect y tu hwnt i fis Rhagfyr 2024. Dylid nodi tanwariant tebygol ar yr adroddiad cynnydd a'i drafod gyda'ch cyswllt ALl oherwydd os nad oes estyniad efallai y bydd cyfle i ailddyrannu'r arian o fewn eich prosiect presennol. |

| SAMPL GWIRIO | |
|---|---|
| A ofynnir am sampl dilysu ar ôl pob hawliad a gyflwynir? | Y bwriad yw gofyn am sampl gyda phob hawliad a gyflwynir. |
| Faint o samplau fydd yn cael eu dewis ar gyfer pob dilysiad? | Bydd maint y sampl yn amrywio. Bydd maint y sampl yn dibynnu ar faint a gwerth yr hawliad gan ystyried canfyddiadau adolygiadau blaenorol. Os na nodir unrhyw faterion, bydd hyn yn lleihau faint o samplu ar hawliadau yn y dyfodol |
| A oes angen tystiolaeth arnoch i gefnogi gorbenion os ydych yn defnyddio cyfradd unffurf % o wariant? | Na, dim ond os caiff ei ddewis i'w ddilysu y bydd angen tystiolaeth arnom i gefnogi'r gwariant. |
| A oes angen i mi anfon datganiadau banc fel rhan o'r sampl i ddangos bod costau wedi'u talu? | Oes, os nad ydych yn sefydliad sy'n cael ei lywodraethu gan reoliadau cyrff cyhoeddus bydd angen i chi anfon datganiadaui banc i ddangos bod costau wedi'u talu. |
| Beth sy'n digwydd os caiff costau eu hawlio mewn camgymeriad? | Byddwch yn cael adroddiad canfyddiadau dilysu a fydd yn rhoi cyfarwyddiadau ar sut i wneud yr addasiad. Os ydych chi'n gwybod eich bod wedi hawlio costau ar gam nad ydynt wedi'u samplu, yna bydd angen i chi wrthdroi'r costau ar yr hawliad nesaf. |
| A yw Staff angen llythyr diwgyiedig y nodi bod nhw yn gweithio ar prosiect sydd yn cael ei ariannu drwy SPF? | Oes, os ydych yn hawlio ar gyfer staff presennol yna bydd angen llythyr ymwybyddiaeth arnynt i gadarnhau bod eu swydd yn cael ei hariannu gan SPF. Os ydych yn recriwtio staff newydd a bod manylion cyllid SPF yn yr hysbyseb, ni fydd angen llythyr ar y staff hyn ond dylid cadw copi o'r hysbyseb ar ffeil. |
| Pa dystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi cyflogau? | Bydd angen i bob prosiect ddangos tystiolaeth o'r symiau cyflog sylfaenol, YG y Cyflogwr a Phensiwn y Cyflogwr. Bydd angen inni hefyd weld tystiolaeth o'r swm cyflog net sy'n cael ei dalu i sefydliadau nad ydynt yn cael eu llywodraethu gan reoliadau cyrff cyhoeddus. |
| A oes angen i mi ddangos tystiolaeth o'r holl drafodion neu dim ond y rhai a ddewiswyd fel rhan o'r broses ddilysu. | Dim ond tystiolaeth i gefnogi trafodion a ddewiswyd fel rhan o'r broses ddilysu y bydd angen i chi ei chyflwyno, fodd bynnag, bydd angen i chi sicrhau o hyd eich bod yn cadw tystiolaeth i gefnogi'r holl drafodion gan y gallai'r rhain gael eu dewis i'w hadolygu yn ystod ymweliad dilysu ar y safle. |